# Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

**2024 dsc 4**

## RHAN 5

ADOLYGIAD O WEITHREDIAD Y DDEDDF ETC. A DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 22 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

(1) Nid yw'r adran hon yn gymwys i reoliadau a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen 2.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(3) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(4) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a—

(a) wneir o dan adran 20 sy'n diwygio, yn diddymu neu'n addasu ddeddfiad a geir mewn deddfwriaeth sylfaenol, neu

(b) wneir o dan adran 21,

oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron y Senedd ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

(5) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 20 yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y Senedd.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw—

(a) Deddf gan Senedd Cymru;

(b) Mesur Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 22 mewn grym ar 25.6.2024, gweler **a. 25(1)(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, Adran 22.